

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Foeldrygarn / Carnalw

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



GRADDFA: 0 400 800 m

PELLTER/HYD: 5.0 milltir (8.0 km) 3 awr

CLUDIANT CYHOEDDUS: Dim

CYMERIAD: Rhostir garw, 200 m o godiad, da byw

CHWILIWCH AM: Caer Oes Haearn Foeldrygarn a 3 Charnedd o'r Oes Efydd
• ffynhonnell y cerrig glas/Carn Menyn

MWY O WYBODAETH: Llwybr heb ei ddiffinio rhwng Carnalw a Charn Menyn

COD CEFN GWLAD!

- Mwynhewch y cefn gwlad a pharchu ei fywyd a'i waith
- Gochelwch rhag unrhyw risg o dân
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Cadwch at y llwybrau cyhoeddus wrth groesi tir amaethyddol
- Ewch â'ch sbwriel adref gyda chi

ALLWEDD

●●●●● Llwybr Cylch

▬▬▬▬▬ Llwybrau Cyhoeddus

P Parcio - cyfyngedig

WC Toileadau Cyhoeddus



Foeldrygarn/Carnalw

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 3 awr

Pellter: 5.0 milltir (8.0 km)

Cludiant cyhoeddus: Dim

Cyfeirnod map: SN165331

Fe ddywedodd yr awdur a'r darlledwr Wynford Vaughan-Thomas fod brigiadau caregog gwasgarog rhostiroedd y Preselau 'yn gallu cystadlu gyda rhai Dartmoor o ran eu siapiau trawiadol'. Ysgrifennodd: "Ym mhob man rydych chi'n teimlo presenoldeb yr adeiladwyr bedd megalithig, y rhyfelwyr Oes Haearn a bentyrriai'r cerrig ar gyfer y bryngaerau mawreddog a'r hen saint Celtaidd caredig ac anghofus." Yn Foeldrygarn mae'n hawdd teimlo'r 'presenoldeb' y mae'n ei ddisgrifio.

Ar gopa Carnalw, mae yna gaer fechan o'r Oes Haearn, sy'n dyddio yn ôl i ryw adeg yn ystod y mileniwm diwethaf cyn i'r Rhufeiniaid gyrraedd yn y Ganrif Gyntaf OC.

Mae Foeldrygarn ei hun hefyd wrth galon gwrthgloddiau bryngaer. Ond ei nodweddion mwyaf trawiadol yw'r tri phentwr anferth o gerrig - carneddau - sy'n rhoi eu henw i'r copa, sy'n golygu 'foel (bryn) y tri charn'.

Ar uchder o 360m (1,190tr) uwchben lefel y môr, mae yna olygfeydd anhygoel o'r tri charn. Casglwyd a phentyrrwyd y cerrig niferus sy'n ffurfio'r nodwedd ar gopa'r bryn gan drigolion yr Oes Efydd yng ngogledd Sir Benfro, rhwng 4,000 a 3,000 o flynyddoedd yn ôl.

Fwy na thebyg yr adeiladwyd y claddfeydd fel cofgolofn, yn atgof hollbresennol o gyndeidiau pwysig i'r bobl a oedd yn byw ar y llethrau is.

Mae ffurfiau garw'r brigiadau yn ganlyniad i effaith cyfnodau hir o rewi a dadlaith ar y graig. Mae Carn Menyn, ychydig oddi ar y llwybr, yn enghraifft berffaith o'r broses hir ac araf, ac mae Carnalw yn enghraifft berffaith arall.

Ond mae Carn Menyn yn ymfalchïo yn y ffaith mai ei chraig dolerit yw'r garreg las enwog a ddefnyddiwyd i adeiladu cylch mewnol Côr y Cewri (Stonehenge), 280 km (175 milltir) i'r dwyrain o'r Preselau. Defnyddiwyd dros 60 o'r cerrig glas mawr ar gyfer y gwaith adeiladu - mae yna ddadlau mawr o hyd ynghylch sut y cyrhaeddodd y cerrig Gôr y Cewri.

Mae'r rhostir agored yn gyfoeth o fywyd gwylt ac mae yna siawns dda y gwelwch chi fwncathod a chigfrain. Os ydych chi'n ffodus iawn, efallai y gwelwch chi gudyll bach, sef hebog bach gwydn, chwim ei adenydd ac aderyn ysglyfaethus lleiaf Prydain.

Mwy o wybodaeth: Llwybr heb ei ddiffinio rhwng Carnalw a Charn Menyn.

